# PWYLLGOR ARCHWILIO CYMUNEDAU

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio Cymunedau a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgora 1a, Neuadd Y Sir, Rhuthun, Dydd Iau, 25 Hydref 2012 am 9.30 am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Huw Hilditch-Roberts (Cadeirydd), Win Mullen-James, Bob Murray, Joe Welch, Cefyn Williams, Cheryl Williams a/ac Huw Williams.
Mynychodd y Cynghorydd Ray Bartley, Joan Butterfield, Meirick Lloyd Davies, Martyn Holland a/ac Dewi Owens fel Sylwedyddion.

## HEFYD YN BRESENNOL

Cyfarwyddwr Corfforaethol: Dysgu a Chymunedau (HW), Cyd-Bennaeth Priffyrdd a Seilwaith (SD), Pennaeth Cynllunio, Adfywio a Gwasanaethau Rheoleiddio (GB), Rheolwr Adran – Rheoli Rhwydwaith (TT), Rheolwr Adran: Cludiant Traffig (MJ), Rheolwr Rheoli Datblygu (PM), Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd (SP), Swyddog Gwasanaethau Democrataidd (RH) a Swyddog Gweinyddol (CW).

## 1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwr(wyr) James Davies, Peter Arnold Evans, Carys Guy-Davies a/ac Rhys Hughes

## 2 DATGAN BUDDIANNAU

NI ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol na rhagfarnus.

## 3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

NI chodwyd unrhyw eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys dan Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol, 1972.

## 4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Cymunedau a gynhaliwyd ar ddydd Iau, 13eg Medi 2012.

***PENDERFYNWYD*** *– derbyn y Cofnodion a'u cymeradwyo fel cofnod cywir.*

## 5 ADOLYGU TORRI GWAIR AR YMYLON PRIFFYRDD 2012

Roedd copi o adroddiad gan y Cyd-Bennaeth Priffyrdd a Seilwaith, a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen, yn adolygu rhaglen torri gwair 2012, asesu effeithiolrwydd yr

argymhellion a gyflwynwyd gan y pwyllgor ar gyfer 2012 ac yn galluogi llunio argymgellion ar gyfer rhaglen y flwyddyn nesaf yn sicrhau bod cymunedau Sir Ddinbych yn daclus a diogel ar gyfer trigolion, busnesau ac ymwelwyr. Dosbarthwyd copi o "Life on the Edge", Prosiect Ymylon Ffyrdd, Amddiffyn Blodau Gwyllt Sir Ddinbych yn y cyfarfod.

Bu i'r Rheolwr Adran – Rheoli Rhwydwaith, grynhoi'r adroddiad ac amlinellodd raglen torri gwair y Cyngor, yn amlinellu problemau torri gwaith yn 2012 ac yn rhoi manylion a oedd yn berthnasol i'r Contract. Ymatebodd i gwestynau'r Aelodau ac esboniodd bod y drefn torri gwair wedi ei chytuno a'i mabwysiadu, lle byddai'r toriad cyntaf yn driniaeth lai ar ffyrdd gwledig o fewn yr AHNE i sicrhau lefelau diogelwch, ac mewn mannau eraill byddai toriad unffurf o ddarn 1 medr o led gyda thriniaeth ehangach mewn mannau megis cyffyrdd, ymlediadau gweledеdd ac ati, i sicrhau nad yw gweledеdd yn cael ei beryglu. Roedd ardaloedd a oedd wedi cynrychioli sialens yn 2012, a manylion problemau torri gwair, wedi eu crynhoi yn yr adroddiad.

Esboniwyd bod sylwadau yn mynegi pryderon wedi eu derbyn gan Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gogledd Cymru, a'r angen i gydbwyso cydymffurfedd gyda gofynion deddfwriaethol a disgwyliadau'r cyhoedd. Cadarnhawyd y byddai cyfarfod yn cael ei gynnal rhwng yr Aelod Arweiniol, swyddogion ac Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gogledd Cymru i drafod y materion a godwyd.

Roedd contract 2010 wedi ei ymestyn i gynnwys ffyrdd nad oedd yn brif ffyrdd am y ddwy flynedd ddiwethaf gyda'r gwaith yn cael ei wneud gan un contractwr allanol. Oherwydd problemau a amlygwyd y llynedd, ymgymerwyd â gwaith gyda'r Contractwr i wella pethau. Mewn ymateb i bryderon ynglŷn â safon y torri, esboniwyd ar ôl toriad cyntaf llwyddiannus, bod safonau wedi dirywio oherwydd yr haf gwlyb a'r cynnydd cysylltiedig yn nhwf y gwair, a bod cwsmeriaid wedi eu hysbysu ynglŷn â'r cynnydd trwy'r adran Gwasanaethau Cwsmeriaid, ond roedd hyn wedi dod yn anoddach wrth i'r rhaglen lithro.

Gan nad oedd y contract safonol yn cynnwys cymalau cosbau ariannol i gwblhau gwaith y tu allan i amserlenni a gytunwyd, ni ellid cymryd camau. Gellid hysbysu'r contractwr o fethiant a rhoi cyfle iddo ddelio â'r problemau mewn cyfnod a gytunwyd yn hytrach na dioddef colli incwm. Mynegodd Aelodau'r farn y dylid adolygu'r contract a'i ail-dendro ar gyfer y flwyddyn nesaf, ond gallai hyn arwain at gynnydd mewn costau. Roedd y Contractwr wedi ad-drefnu trefniadau rheoli a rhoddwyd sicrhad ynglŷn â rheolaeth y contract yn y dyfodol. Nid oedd gwelliannau a gyflwynwyd ar ôl 2011 wedi gweithio cystal ag y rhagwelwyd, yn bennaf oherwydd y tywydd, ac anawsterau pellach a gafodd y Contractwr yn cwrdd ag anghenion y Cyngor. Mewn perthynas â'r angen i esbonio gofynion cyfreithiol y Cyngor a'r cyfyngiadau i gydymffurfio â deddfwriaeth mewn perthynas â thorri gwair a gwrychoedd, cytunodd y Cyd-Bennaeth Priffyrdd a Seilwaith bod dalen ffeithiau yn manylu dyletswyddau'r Cyngor yn cael ei dosbarthu i'r Aelodau, a chyhoeddi'r wybodaeth ar y mewnrwyd.

Mewn ymateb i gwestiynau gan y Cynghorydd H O Williams, cadarnhaodd y Rheolwr Adran – Rheoli Rhwydwaith, ar ôl ymgynghori ag Aelodau Lleol a Chymunedau lleol, bod rhaglen ar gyfer torri gwair ar ffyrdd yn yr AHNE wedi ei chytuno. Amlinellwyd y cyfraddau codi tâl ar gyfer torri gwair a gwrychoedd, a oedd

yn cynnwys y cyfraddau gwahanol a godwyd ar gyfer ardaloedd megis cyffyrdd lle gellid cael anawsterau. Cadarnhawyd bod y meini prawf ar gyfer torri gwair mewn ardaloedd trefol y wahanol i ardaloedd gwledig ac yn y rhan fwyaf o achosion yn cael ei wneud yn fewnol.

Rhoddwyd yr ymatebion canlynol i gwestiynau a materion a godwyd gan yr Aelodau:-

- cytunodd y swyddogion â'r farn y gellid adolygu'r amserlenni ymateb ar gyfer cwynion a gofnodwyd trwy system CRM.
- amlinellwyd mynegiannau o fuddiant yn y contract, a chadarnhawyd bod y rhaglen a manylion y contract wedi eu pennu gan y Cyngor ac roeddynt yn y bon yn seiliedig ar ac yn cael eu harwain at ansawdd.
- esboniwyd bod gan y Cyngor bwerau i gyflwyno Hysbysiadau Gorfodi i berchnogion gwrychoedd nad oeddynt yn cael eu torri ac yn cynrychioli perygl neu risg i'r cyhoedd. Cyfeiriwyd at Ddeddf Priffyrdd 1980 a'r Pwerau Gorfodi perthnasol a oedd yn galluogi i'r Cyngor wneud y gwaith a chodi tâl ar y tirfeddiannwr.
- y gellid ymgymryd â phroses ail-dendro. Fodd bynnag, gallai hyn fod â goblygiadau ariannol i'r Cyngor pe byddai cyfraddau uwch yn cael eu cyflwyno gan gontractwr.
- cafwyd problemau o ganlyniad i'r ffaith bod yr offer a ddefnyddiwyd gan y Contractwr yn rhy fawr neu'n anaddas i'w ddefnyddio ar lonydd a ffyrdd culion. Rhoddwyd sicrhad y byddai'r gwaith yn cael ei wneud yn y dyfodol, mewn achosion lle na wnaed y gwaith oherwydd offer anaddas.
- ymatebodd y swyddogion i gwestiynau gan yr Aelodau a chytuno darparu adroddiad gwybodaeth ar y drefn o dorri gwair a gwrychoedd a fabwysiadwyd yn nhrefi ac ardaloedd trefol y Sir.
- mynegwyd cefnogaeth i'r agwedd bioamrywiaeth gan y Cynghorydd M.L. Holland, ond pwysleisiodd bwysigrwydd yr elfen ddiogelwch wrth benderfynu ar y drefn o dorri gwair a gwrychoedd. Amlygodd hefyd bwysigrwydd ymgynghori â Chynghorau Cymuned penodol a chael mewnbwn Aelodau, wrth ystyried trefniadau contract yn y dyfodol.

Pwysleisiodd y Cadeirydd yr angen i adolygu'r contract a darparu tystiolaeth ac esboniad ar ofynion presennol ac i'r dyfodol, disgwyliadau a manylion y matrics. Cyfeiriwyd at bwysigrwydd sicrhau contract cadarn a Chytundeb Lefel Gwasanaeth i sicrhau bod safonau perfformiad yn bodloni disgwyliadau. Amlinellodd arwyddocad ymgynghori â'r gymuned a chynnwys Aelodau wrth lunio'r contract, gyda chyfeiriad penodol yn cael ei wneud at yr angen i esbonio materion mewn perthynas â'r AHNE a gofynion bioamrywiaeth.

Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cwsmeriaid at y penderfyniadau blaenorol a gymerwyd mewn perthynas â chaffael y contract presennol, ac amlinellodd yr amserlenni ar gyfer sicrhau contract ar gyfer y flwyddyn i ddod. Mynegodd y Rheolwr Adran – Rheoli Rhwydwaith ei gefnogaeth i'r penderfyniadau a gymerwyd eisoes ac roedd yn hyderus y gellid datrys y materion a godwyd gan Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gogledd Cymru. Cytunodd y gellid rhoi gwybodaeth bellach ar weithrediad a matrics y contract presennol ac y gellid ymgymryd â gwaith i gaffael contract newydd gyda mewnbwn gan yr Aelodau.

Cefnogodd y Pwyllgor y farn bod y contract yn cael ei adolygu, a bod y Cynghorwyr W. Mullen-James, J.S. Welch a H.O. Williams, ynghyd â'r Aelod Arweiniol, yn rhoi mewnbwn Aelodau i'r broses. Cytunodd yr Aelodau bod adroddiad cynnydd pellach yn cael ei gyflwyno i gyfarfod mis Ionawr, 2013 y Pwyllgor.

Yn ystod y drafodaeth a ddilynodd, fe:-

***BENDERFYNWYD*** *– bod y Pwyllgor Craffu Cymunedau:-*

*(a) Yn derbyn yr adroddiad ac yn cydnabod cynnydd a llwyddiant y drefn dorri gyffredinol a fodolai ar gyfer 2012.*
*(b) Yn cytuno bod y swyddogion, yr Aelod Arweiniol a'r Aelodau a enwyd yn cyfarfod i adolygu matrics y Contract presennol gan ddefnyddio'r dystiolaeth a'r ystadegau a oedd ar gael, a*
*(c) Bod adroddiad gwybodaeth pellach yn cael ei gyflwyno i gyfarfod mis Ionawr, 2013, y Pwyllgor Craffu Cymunedau i hysbysu'r Pwyllgor o ganlyniad y trafodaethau hyn.*

## 6 PARATOI AR GYFER CYNNAL A CHADW YN Y GAEAF – TYMOR 2012-13

Roedd copi o adroddiad gan y Cyd-Bennaeth Priffyrdd a Seilwaith, yn manylu paratoi Rhaglen Cynnal a Chadw Gaeaf 2012/2013, yn rhoi gwybodaeth ar gael llwybrau diogelach i drigolion y Sir ac ar gadw'r Sir ar agor i fusnes yn ystod tywydd drwg, wedi ei ddosbarthu gyda'r papurau ar gyfer y cyfarfod.

Rhoddodd y Rheolwr Adran – Rheoli Rhwydwaith grynodeb manwl o'r adroddiad a oedd yn cynnwys materion yn ymwneud â'r meysydd allweddol a'r materion canlynol:-

- Nid oedd newid wedi bod yn agwedd y Cyngor tuag at baratoi ar gyfer gwaith cynnal a chadw'r gaeaf.
- Cadw gwasanaethau Contractwyr Amaethyddol.
- Lefelau stociau halen yn y Depos ym Modelwyddan, Corwen a Rhuthun.
- Trefniadau ar gyfer ail-gyflenwi tomenni a biniau halen.
- Trefniadau rota ar gyfer darogan a goruchwylio.
- Manylion y strategaeth gyfathrebu a ddatblygwyd ar y cyd â'r Tîm Cysylltiadau Cyhoeddus a Gwasanaethau Cwsmeriaid.
- Trefniadau wrth gefn gyda swyddogion a staff yn y Gwasanaethau Cefn Gwlad a'r Parth Cyhoeddus.

Hysbysodd y swyddogion y Pwyllgor eu bod yn hyderus bod trefniadau boddhaol ar gyfer gwaith cynnal a chadw yn y gaeaf, a bod cyllideb arwyddocaol wedi ei dyrannu i sicrhau y gallai'r gwasanaeth ymdopi â thywydd gwael. Roedd cronfa wrth gefn ar wahân hefyd ar gyfer unrhyw broblemau anodd iawn, er nad oedd hon wedi ei defnyddio mewn blynyddoedd diweddar.

Roedd darparu gwasanaeth Cynnal a Chadw yn y Gaeaf yn ofyniad statudol dan Adran 41(1A) Deddf Priffyrdd 1980 fel y'i diwygiwyd gan Adran 111 Deddf Diogelwch Rheilffyrdd a Chludiant 2003. Roedd cwmpas y gofyniad i gwrdd â'r

ddyletswydd wedi bod yn destun trafodaeth. Fodd bynnag, derbyniwyd bod y llwybrau graeanu a gyhoeddwyd gan y Cyngor wedi rhoi o leiaf y ddarpariaeth leiaf a ddisgwyliwyd. Byddai darpariaeth ychwanegol yn dibynnu ar argaeledd adnoddau a chynhaliwyd trafodaethau rheolaidd gyda rhanddeiliaid i ganfod yr agwedd orau i'w mabwysiadu.

- Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd R.M. Murray, esboniwyd bod yr argymhelliad yn y cod ymarfer yn nodi na ddylai cerbydau fynd dros 30mya wrth raeanu., Cadarnhaodd bod cerbydau wedi eu calibreiddio a bod offer tracio ynddynt, a bod amrywiol osodiadau ar gyfer lledaenu mewn perthynas â lled y ffordd.

- Amlinellodd y Cyd-Bennaeth Priffyrdd a Seilwaith Ddyletswydd Statudol yr Awdurdod i drin ffyrdd mabwysiedig. Esbiniwyd bod Cyfarwyddiaethau eraill, megis Dysgu Gydol Oes a Gwasanaethau Cymdeithasol, wedi gwneud trefniadau mewn perthynas â'u gwasanaethau a'u safleoedd hwy, ond roedd cynllun wrth gefn yn bodoli i ddelio ag argyfyngau.
- Rhoddwyd amlinelliad o lefelau stoc halen y Sir, yn unol â'r gofyniad gan Lywodraeth Cymru, gan y swyddogion. Sicrhaodd y swyddogion yr Aelodau, oni fo tywydd difrifol iawn yn arwain at brinder halen cenedlaethol, eu bod yn hyderus bod cyflenwadau digonol yn Sir Ddinbych.
- Cadarnhwyd bod dau beiriant graeanu bychan wedi eu prynu i drin ardaloedd yn y trefi.
- Rhoddwyd manylion deddfwriaeth yn ymwneud ag oriau gwaith gyrwyr, a rota gwaith gyrwyr gan y Rheolwr Adran – Rheoli Rhwydwaith. Cytunwyd y gellid rhoi manylion pellach y cytundeb gyda'r Undebau ynglŷn ag oriau gyrwyr.
- Hysbyswyd yr Aelodau y gellid defnyddio contractwyr preifat i ddibenion cynnal a chadw yn y gaeaf os oedd angen.
- Cadarnhawyd na fyddai tâl i adnewyddu stociau halen mewn biniau halen ar safleoedd ysgol.
- Byddai palmentydd mewn trefi, megis mewn ardaloedd siopa, yn cael eu trin ar ôl cwblhau'r gwaith i'r prif rwydwaith, a fyddai'n derbyn blaenoriaeth.
- O ran trin ffyrdd sy'n arwain i gartrefi yr henoed, ffyrdd nad ydynt wedi eu mabwysiadu, meysydd parcio a phalmentydd mewn trefi, cadarnhaodd y Rheolwr Adran – Rheoli Rhwydwaith y byddai staff Parth Cyhoeddus yn cael eu defnyddio i helpu gyda chlirio eira a thaenu halen a graean pan fyddant ar gael. Amlinellodd yr anawsterau a allai godi wrth ddarparu gwasanaethau cynnal a chadw yn y gaeaf mewn ardaloedd y tu allan i gyfrifoldeb dirprwyedig yr Awdurdod. Cadarnhaodd y Cyd-Bennaeth Priffyrdd a Seilwaith y byddai swyddogion yn cysylltu gyda'r Gwasanaethau Cymdeithasol i sicrhau bod cynlluniau digonol wrth gefn i ddelio â thywydd y gaeaf o gwmpas datblygiadau tai ar gyfer grwpiau oedrannus a rhai sy'n agored i niwed.
- Byddai'r rhaglen ar gyfer graeanu a gwaith cynnal a chadw yn y gaeaf ar gael ac yn cael ei chynnwys ar y wefan pan fyddai wedi ei chwblhau.
- Hysbyswyd yr aelodau, pe byddai sefyllfa'n codi lle'r oedd halen a roddwyd mewn biniau halen neu domenni yn cael ei gamddefnyddio, yna cymerid y camau priodol, megis ychwanegu lliw i gyflenwadau halen.
- Cadarnhawyd bod rhif ffôn argyfwng Sir Ddinbych ar gael.

Yn ystod y drafodaeth a ddilynodd, cytunwyd rhoi esboniad ynglŷn â manylion y meysydd cyfrifoldeb ar gyfer cynnal a chadw yn y gaeaf mewn perthynas â'r Cyfarwyddiaethau penodol. Cadarnhaodd y Cyd-Bennaeth Priffyrdd a Chludiant y byddai ffocws ar y blaenoriaethau yn deillio o'r rhwydwaith priffyrdd mabwysiedig, ac y byddai ardaloedd eraill yn cael eu cyfeirio at yr Uwch Dîm Arwain i'w hystyried.

***PENDERFYNWYD*** *– bod y Pwyllgor Craffu Cymunedau:-*

*(a) Yn cytuno bod y paratoadau ar gyfer gwaith cynnal a chadw yn y gaeaf yn ddigonol ar gyfer y gaeaf a ragwelwyd,*
*(b) Yn cadarnhau bod y trefniadau wrth gefn ar gyfer amodau mwy difrifol hefyd yn ddigonol, a*
*(c) Yn gofyn am gael esboniad yn amlinellu manylion y meysydd cyfrifoldeb ar gyfer cynnal a chadw yn y gaeaf mewn perthynas â'r Cyfarwyddiaethau penodol.*

**7 CYNNYDD AR WAITH CYNNAL A CHADW CYFALAF PRIFFYRDD A GWAITH SEILWAITH CLUDIANT MAWR**

Roedd copi o adroddiad gan y Cyd-Bennaeth Priffyrdd a Seilwaith, a oedd yn manylu'r cynnydd hyd yma ar y rhaglen cynnal a chadw priffyrdd ac yn amlinellu'r mecanwaith a'r ffrydiau ariannu posibl ar gyfer buddsoddiad seiliwaith mawr yn Sir Ddinbych, wedi ei ddosbarthu gyda'r papurau ar gyfer y cyfarfod. Roedd adroddiad gwybodaeth yn manylu'r mecanwaith a'r ffrydiau ariannu posibl ar gyfer buddsoddiad seilwaith mawr yn Sir Ddinbych wedi ei gynnwys fel Atodiad 1.

Esboniodd y Rheolwr Adran – Rheoli Rhwydwaith bod gwaith wedi cychwyn ar ddrafftio rhaglen ar gyfer y flwyddyn nesaf ac y byddai'n mynychu cyfarfodydd Grwpiau Ardal i drafod y cynigion. Hysbysodd y Cadeirydd yr Aelodau bod y Grŵp Buddsoddi Strategol yn ddiweddar wedi ystyried adroddiad ar fuddsoddiad Llywodraeth Cymru a chylllid mewn perthynas â phriffyrdd, ac yn gofyn am asesiad risg cyson ar draws y seilwaith priffyrdd i alluogi blaenoriaethu gwariant.

Roedd yr adroddiad yn manylu cynnydd Rhaglen Cynnal a Chadw Cyfalaf 2012/13. Roedd gwella cyflwr y ffyrdd yn parhau i fod yn flaenoriaeth ac roedd Sir Ddinbych wedi ymrwymo £1,400,000 yn 2012/2013, gyda'r bwriad penodol o dargedu ffyrdd y Sir a oedd wedi bod yn destyn cwyion neu risgiau posibl. Roedd dyraniad o £2,022,000, cyllid Menter Benthyca Llywodraeth Leol Llywodraeth Cymru (LGBI), ac roedd hwn yn bennaf wedi canolbwyntio ar y ffyrdd A a B yn y Sir. Roedd y rhaglen gyfan wedi ei chysylltu â delio â'r materion penodol a nodwyd fel rhan o arolygon mwy technegol megis SCRIM, asesiad o atal sgidio.

Roedd y rhaglen ail-arwynebu wedi ei rhannu'n dri prif categori o ail-arwynebu traddodiadol â bitwmen, micro-asffalt a Thrin Arwyneb. Roedd manylion y cynlluniau, ynghyd â rhaglen waith a chynlluniau a oedd ar y gweill nawr, wedi eu crynhoi yn yr adroddiad. Dros fisoedd gweddillol y flwyddyn ariannol, roedd rhyw ddeuddeg cynllun wedi eu cynnwys yn y rhaglen, a oedd o fewn y gyllideb ar hyn o bryd.

Roedd tywydd gwael wedi effeithio gwaith ar rai pontydd a byddai'r gwaith hwn nawr yn cael ei ohirio tan 2013/14. Roedd manylion gwaith a chynlluniau a gwblhawyd yn y flwyddyn ariannol hon wedi eu hamlinellu yn yr adroddiad, ynghyd â chynhwysiad rhestr o waith cryfhau ac ailwampio pontydd.

Mewn ymateb i gwestiynau gan yr Aelodau, esboniwyd y byddai Rhaglen Cynnal a Chadw Cyfalaf 2013/14 wedi ei chytuno erbyn Ionawr, 2013. Byddai gwaith yn cael ei ariannu ar y cyd rhwng LGBI ac adnoddau Sir Ddinbych ei hunan, ac ar hyn o bryd tybiwyd bod cyllid oddeutu £3.5 miliwn ar gyfer y rhaglen gyfan, a oedd yn cynnwys pontydd a goleuadau stryd. Byddai angen cyflwyno rhaglen fanwl i Lywodraeth Cymru erbyn Rhagfyr 2012, a byddai hon yn cael eu hanfon at holl yr Aelodau etholedig, Cynghorau Tref a Chymuned ac yn cael ei dodi ar y wefan. Amlinellodd yr adroddiad y broses ymgynghorol a fabwysiadwyd a thanlinellu'r risgiau cysylltiedig mwyaf. Cadarnhawyd y byddai'r cylch adolygu ar gyfer gwaith a ymgymerwyd ar y priffyrdd nawr yn cael ei adnabod ar ôl ymrwymiad ariannol hirdymor.

Cyfeiriodd y Cynghorydd R M Murray at broblemau yn ymwneud â gwaith ailarwynebu ar Ffordd yr Arfordir rhwng y Rhyl a Phrestatyn. Mynegodd hefyd ei werthfawrogiad o'r gwaith a wnaed gan y Rheolwr Grŵp: Rhaglen Newid, Cymorth Busnes a Thwristiaeth yn ei oruchwylio. Rhoddodd y Rheolwr Adran – Rheoli Rhwydwaith fanylion y gwaith a wnaed a rôl oruchwylio'r Cyngor. Cadarnhaodd y byddai'r contractwr yn delio ag unrhyw fethiant yn ymwneud â safon neu ansawdd gwaith dan y warant, a chytunodd ymchwilio i'r meysydd pryder a godwyd gan yr Aelodau.

Mewn ymateb i bryderon a godwyd gan y Cynghorydd W Mullen-James, esboniwyd bod y gwaith trwsio a gwella i gyflwr y ffordd ar yr A547 rhwng Rhuddlan ac Abergele angen buddsoddiad arwyddocaol. Mewn perthynas â chostau glanhau mwd a adawyd ar y ffordd, sy'n eu gadael mewn cyflwr peryglus, gellid anfon y bil ar y sawl sy'n ei achosi os na fyddant yn gwneud y gwaith eu hunain. Mewn perthynas â glanhau dail o'r briffordd, byddai'r angen i daro cydbwysedd rhwng diogelwch a gwariant yn arwyddocaol.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd J. Welch, esboniodd y Rheolwr Adran – Rheoli Rhwydwaith bod rhaglen ddwy flynedd o welliannau i'r priffyrdd yn cael ei datblygu ar hyn o bryd yn unol â chyllid Llywodraeth Cymru trwy fenter benthyca llywodraeth leol. Nododd y Cyd-Bennaeth Priffyrdd a Seilwaith yr angen i fod yn ofalus wrth gynhyrchu rhaglen waith ddrafft. Pwysleisiodd yr angen i gydbwyso'r gallu i gyflawni yn erbyn lefel disgwyliadau, a sicrhau bod gwasanaethau yn cael eu cyflawni yn unol â'r adnoddau a oedd ar gael.

Atebodd y Rheolwr Adran – Rheoli Rhwydwaith bryderon a godwyd gan y Cynghorydd C.H. Williams ac esboniodd y byddai gwaith sgwrio ar bontydd, na wnaed yn yr haf oherwydd lefelau dŵr uchel, yn digwydd yr haf nesaf os byddai lefelau dŵr yn caniatáu. Amlinellwyd manylion y rhaglen o wagio gwlïau i'r Aelodau.

Crynhodd y Cadeirydd feysydd pryderon a materion a godwyd gan yr Aelodau a oedd yn cynnwys:-

- Clirio mwd a adawyd ar briffyrdd, yn enwedig ger mynedfeydd i ffermydd a chaeau.
- Cynllun i wneud y gwaith ar y pontydd y flwyddyn nesaf.
- Cynhyrchu rhaglen waith ddwy flynedd, gydag amlinelliad o'r cefndir a'r hanes i'w chyflwyno i Grwpiau Aelodau Ardal.
- Rheoli disgwyliadau ynglŷn â'r rhaglen gwaith cynnal a chadw ar y ffyrdd, gan gynnwys cyfathrebu, yn enwedig mewn perthynas â Chynghorau Tref a Chymuned.

Cyfeiriodd y Rheolwr Adran: Cludiant Traffig at Atodiad 1 yr adroddiad ac esbonio bod Cynllun Cludiant Rhanbarthol TAITH Gogledd Cymru yn fecanwaith ar gyfer adnabod, datblygu a chyflawni cynlluniau seilwaith cludiant mawrion. Roedd yn cynnwys chwe Awdurdod Lleol Gogledd Cymru gyda Sir Ddinbych yn cael ei chynrychioli gan yr Aelod Arweiniol Parth Cyhoeddus a Chadeirydd y Pwyllgor Craffu Cymunedau.

Roedd amcanion polisi a blaenoriaethau'r Cynllun Cludiant Rhanbarthol yn alinio ag amcanion Strategaeth Cludiant Cymru. Yn gysylltiedig â'r Cynllun oedd cyllid cyfalaf gan Lywodraeth Cymru a oedd yn cael ei alw'n Grant Consortia Cludiant Rhanbarthol (RTCG). Roedd TAITH yn casglu bidiau ar gyfer RTCG gan awdurdodau fel rhan o broses bidio flynyddol, ynghyd â bidiau ar gyfer prosiectau Rhanbarthol. Byddai pob prosiect a dderbyniai RTCG yn cael eu cynnwys yn rhaglen y Cynllun Cludiant Rhanbarthol a byddai pob un yn cael ei asesu'n annibynnol i sicrhau ei fod yn cydymffurfio ag amcanion a blaenoriaerhau polisi cludiant yr RTP. Ni fyddai prosiectau nad oeddynt yn cwrdd â'r polisïau cludiant yn cael eu cynnwys yn y rhaglen. Byddai rhyw £4.5 miliwn o RTCG ar gael ar gyfer rhanbarth TAITH fesul blwyddym, er y gallai hyn ostwng i lai na £4.0 miliwn yn y ddwy flynedd nesaf. Roedd manylion prosiectau Sir Ddinbych a ariannwyd o'r RTCG mewn blynyddoedd diweddar wedi eu cynnwys yn yr adroddiad. Cadarnhawyd bod enghreifftiau lle'r oedd Llywodraeth Cymru wedi ariannu prosiectau ffordd liniaru. Dim ond 18 mis o'r rhaglen 5 mlynedd bresennol a oedd ar ôl a byddai angen paratoi ar gyfer y rhaglen 5 mlynedd nesaf a fyddai'n cychwyn yn 2014. Amlinellwyd manylion y broses o ymgynghori ag Aelodau.

Hysbyswyd yr Aelodau bod TAITH yn darparu ffynhonnell ariannu bwysig i'r Cyngor ac y byddai hyn yn dod yn fwy cyffredin wrth i waith rhanbarthol gynyddu. Pwysleiswyd pwysigrwydd sicrhau bod y mwyaf yn cael ei wneud ohoni. Byddai unrhyw brosiectau a ariannwyd gan y Grant Consortia Cludiant Rhanbarthol yn destun methodoleg rheoli prosiect cadarn i sicrhau bod unrhyw risgiau a oedd yn gysylltiedig â phrosiect unigol yn cael eu rheoli'n briodol.

Rhoddodd y swyddogion yr ymatebion canlynol i'r materion a godwyd gan yr Aelodau:-

- amlinellwyd manylion cyllid cyfalaf, cynnal a chadw a chostau llwybrau beicio gan y Rheolwr Adran: Cludiant Traffig.
- Nad oedd unrhyw gynlluniau ar hyn o bryd ar gyfer Ffordd Dinbych Isaf o Lanelwy i Ddinbych. Fodd bynnag, gofynnid am farn Aelodau trwy'r broses ymgynghori mewn perthynas â'r paratoadau ar gyfer y cynllun 5 mlynedd i ddod.
- Esboniwyd mai'r bwriad oedd ymestyn Llwybr Beicio Dyffryn Clwyd trwodd i Ruthun, a fyddai'n darparu cysylltiad â Gogledd a De Parc Busnes Colomendy.

- Cafwyd trafodaeth gyda Chyfarwyddwyr Strategol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy mewn perthynas â chlirio tywod o’r llwybr beicio ar ochr Conwy y datblygiad Harbwr. Cadarnhawyd bod ystyriaeth wedi ei roddi i ddarparu sgriniau ac roedd trafodaethau ar y gweill mewn perthynas â hyn. Cytunwyd cyflwyno adroddiad cynnydd ar y mater hwn.
- Mewn perthynas â’r Eisteddfod i’w chynnal yn Ninbych, cadarnhawyd bod cyfarfodydd cyswllt y Grŵp Strategol, gyda’r Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cwsmeriaid yn cadeirio, wedi eu cynnal i ystyried trefniadau mynediad. Sefydlwyd Is-grwpiau a oedd yn cynnwys Grŵp Cynghori ar Ddiogelwch a oedd yn delio â meysydd yn ymwneud â Chynllunio ar gyfer Argyfwng a threfniadau Cynllun Traffig.

Ar ôl trafodaeth bellach, fe:-

***BENDERFYNWYD*** *– bod y Pwyllgor Craffu Cymunedau yn cydnabod:-*

*(a) Cynnwys yr adroddiad ac Atodiad 1.*
*(b) Y cynnydd hyd yma ac yn cadarnhau’r strategaeth ar gyfer symud ymlaen.*
*(c) Cyfranogiad y Cyngor yn natblygiad y seilwaith strategol, a*
*(d) Problemau a meysydd pryder a godwyd gan yr Aelodau ac yn cytuno’r camau a amlygwyd.*

## 8 DOD A CHYNLLUNIO YN AGOSACH AT Y GYMUNED

Cyflwynodd y Rheolwr Rheoli Datblygu adroddiad ar sut roedd y Tîm Rheoli Datblygu a Chydymffurfedd yn ymgynghori gyda ac yn cysylltu â’r gymuned ar gynigion cynllunio. Amlinellodd y Rheolwr y dull presennol o ymgynghori a chyfathrebu a dweud bod y tîm nawr eisiau datblygu eu harferion ymhellach a’u bod wedi llunio safonau gwasanaeth drafft ar gyfer ymgynghori ar gynllunio ac ymgysylltu â'r gymuned.

Holodd y Cynghorydd Huw Williams a fyddai rhai aelodau Cynghorau Tref a Chymuned yn elwa o hyfforddiant ar faterion cynllunio a materion cysylltiedig cod ymarfer megis pryd i ddatgan buddiannau personol. Adroddodd y Rheolwr y byddai hyfforddiant pellach ar y materion hynny yn ddefnyddiol ac y byddai’r gwasanaeth yn cefnogi hynny. Awgrymodd y Cynghorydd Martyn Holland y gallai Cynghorau Tref a Chymuned cyffiniol ymuno â’i gilydd ar gyfer hyfforddiant ar y cyd, er enghraifft, gan awgrymu y gellid gwahodd y tri chyngor cymuned yn ei ward ef i wneud hynny, awgrym yr oedd Pennaeth y Gwasanaethau Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd yn ei gefnogi.

Canmolodd aelodau’'r Pwyllgor yr adran am lefel a safon y cysylltiad gyda Chynghorau Tref a Chymuned a gwell rhyngweithiad gyda’r aelodau’n gyffredinol. Diolchodd Pennaeth y Gwasanaethau Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd i’r Pwyllgor am eu sylwadau ond dywedodd bod y gwasanaeth yn bwriadu sicrhau gwelliannau pellach.

***PENDERFYNWYD*** *– bod y Pwyllgor Craffu Cymunedau:*

*(a) Yn cefnogi'r trefniadau a ddefnyddir ar hyn o bryd gan y Gwasanaeth Cynllunio i gysylltu â Chynghorau Tref a Chymuned;*

*(b) yn cefnogi'r canllaw gwybodaeth drafft sy'n nodi'r safonau gwasanaeth arfaethedig ar gyfer ymgynghori ar gynllunio ac ymgysylltu â'r gymuned, a*

*(c) yn llongyfarch staff Cynllunio ar eu hagwedd ragweithiol tuag at ymgysylltu â'r gymuned.*

## 9 RHAGLEN GWAITH CRAFFU

Cyflwynodd y Swyddog Gwasanaethau Democrataidd adroddiad ar flaenraglen waith y Pwyllgor. Dywedodd bod adroddiad ar adolygiad o wasanaethau gofal dydd yng ngogledd y sir wedi ei ohirio tan fis Ionawr pan fyddai'r wybodaeth ariannol berthnasol ar gael.

Dywedodd y Cynghorydd Joan Butterfield bod aelodau yng ngogledd y sir o'r farn bod angen yr adroddiad ar frys. Ymatebodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cwsmeriaid trwy awgrymu y gellid derbyn yr adroddiad ym mis Rhagfyr yn hytrach nag Ionawr, ac y gellid gohirio adroddiad ar Etape tan fis Ionawr i wneud lle ar y rhaglen. Fodd bynnag byddai hyn yn dibynnu ar gael gwybodaeth ddigonol i gyfiawnhau ystyried adroddiad gwasanaethau gofal dydd ym mis Rhagfyr.

Cytunodd y Pwyllgor gyda'r agwedd hon.

Cytunodd yr Aelodau hefyd dderbyn adroddiad ar Strategaeth Cefnogi Pobl ym mis Chwefror 2013 a fyddai'n dilyn cyhoeddi cynlluniau gwario 3 blynedd yr awdurdod. Cytunodd y Pwyllgor ystyried y Straegaeth Dai Leol ddrafft ym mis Chwefror 2013, a byddai'r ddogfen strategaeth derfynol yn cael ei hystyried gan y Pwyllgor o gwmpas Mehefin 2013. Fodd bynnag, gofynnodd y Pwyllgor am gadarnhad y byddai digon o amser a chyfle iddynt awgrymu newidiadau i'r strategaeth ddrafft os oeddynt yn meddwl bod angen hynny.

Atgoffodd y Swyddog Gwasanaethau Democrataidd y pwyllgor bod copi o'r llawlyfr tenantiaid drafft wedi ei ddosbarthu i aelodau'r pwyllgor gyda gwahoddiad i wneud sylwadau neu awgrymiadau ynglŷn â'r cynnwys. Adroddodd hefyd y disgwylid dosbarthu cytundeb tenantiaeth drafft i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau yn y man. Cyfeiriodd y Cynghorydd Butterfield at gyfranogiad landlordiaid cymdeithasol cofrestredig a holodd a fyddai eu barn hwy yn cael ei chymryd i ystyriaeth. Cafwyd trafodaeth ar fuddiannau posibl cyfeirio'r mater at y Pwyllgor Craffu Partneriaethau gan yr aelodau, ond ni chytunwyd atgyfeirio.

Dywedodd y Swyddog Gwasanaethau Democrataidd y byddai adroddiad ar gyfamod cymunedol gyda'r lluoedd arfog yn cael ei ddosbarthu i aelodau'r pwyllgor ym mis Tachwedd. Gofynnodd y Cadeirydd i aelodau anfon copi o'u hymatebion at aelodau eraill y pwyllgor er gwybodaeth ac i osgoi dyblygu diangen.

***PENDERFYNWYD*** *– yn amodol ar y newidiadau uchod, cymeradwyo Rhaglen Gwaith Craffu'r Pwyllgor.*

## 10 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR PWYLLGOR

NI chyflwynwyd unrhyw ddiweddariad gan gynrychiolwyr y pwyllgor ar amrywiol fyrddau a grwpiau’r Cyngor.